# Defnyddio offer neu beiriannau i gloddio

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â dehongli gwybodaeth, mabwysiadu arferion gwaith diogel, iach ac amgylcheddol gyfrifol, dewis a defnyddio deunyddiau, cydrannau a chyfarpar ar gyfer gweithrediadau offer neu beiriannau, gosod, gweithredu a diffodd offer neu beiriannau ar gyfer gwneud gwaith cloddio

Mae'r safon hon ar gyfer pobl sy'n gweithio'n annibynnol i weithredu offer neu beiriannau i gloddio tir â deunyddiau rhydd, a gall gweithwyr, goruchwylwyr a rheolwyr ei defnyddio

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

P1 dehongli'r wybodaeth a roddir am ddefnyddio peiriannau a chadarnhau ei pherthnasedd

P2 trefnu gydag eraill ym mha drefn y dylid gwneud y gwaith

P3 cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol a chyfredol, dogfennau statws cyfreithiol arbennig, canllawiau swyddogol a gweithdrefnau'r sefydliad i gynnal arferion gwaith diogel ac iach

P4 gofyn am adnoddau i gynnal gweithrediadau peiriannau neu offer er mwyn cwblhau'r rhaglen waith

P5 dewis adnoddau peirianyddol ar gyfer y dulliau gweithio a'r gweithrediadau i'w cyflawni

P6 cydymffurfio â gweithdrefnau'r sefydliad i leihau'r risg o ddifrod i'r gwaith a'r ardal o'i gwmpas

P7 cydymffurfio â'r wybodaeth a roddir yn y contract i wneud y gwaith yn effeithlon yn unol â'r gofynion

P8 cwblhau'r gwaith o fewn yr amser a neilltuwyd yn unol â'r rhaglen waith

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*